MENTER MÔN Est 1995

# BUDDION O WEITHIO I NI

## CYDBWYSEDD BYWYD A GWAITH

Mae sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod staff yn derbyn boddhad yn eu gwaith. Mae ein polisïau a’n cynlluniau yn hybu hyn drwy’r trefniadau canlynol:

- Cynllun gweithio oriau hyblyg (ble mae’r swydd yn caniatáu hynny), gan gynnwys opsiynau megis oriau ystwyth (fflecsi), gweithio’n hybrid, oriau cywasgedig a gweithio rhan amser.
- Hawl i rhwng 25 a 30 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ddibynnol ar hyd gwasanaeth. Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 diwrnod ychwanegol rhwng y Nadolig a’r flwyddyn newydd.
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu ac absenoldeb a rennir.
- Absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr a chyfle i weithio'n hyblyg os oes angen.

## PENSIWN

- Gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd yn cynnig rhai o’r telerau gorau yn y wlad.
- Cynllun pensiwn AVC – Cyfle i roi cyfraniadau ychwanegol at eich pensiwn.

## DYSGU A DATBLYGU

Rydym yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf - sef ein staff. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:

- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd i fynychu hyfforddiant, boed hynny yn fewnol neu’n allanol

## IECHYD A LLES

Mae iechyd a lles ein staff yn bwysig i ni ac rydym yn ceisio creu amgylchedd gwaith positif ble mae staff yn ffynnu. Dyma rai enghreifftiau o gynlluniau sydd ar waith:

- Aelodaeth canolfannau hamdden - Aelodaeth ostyngol i Ganolfannau Hamdden Byw’n Iach a Môn Actif
- Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol
- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol i staff
- Profion llygaid am ddim, i swyddogion sy'n gwneud defnydd rheolaidd o Sgriniau Arddangos Gweledol (VDU's)

## YR IAITH GYMRAEG

- Cewch gyfle i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pob swydd.
- Cymraeg yw prif iaith weinyddol y Cwmni ac rydym yn defnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle.
- Gallwch fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eich sgiliau ieithyddol. Mae hyfforddiant yn cael ei gynnig i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg ymhellach, a hynny ar draws pob lefel.

Swyddi mewn GOFOD CYMRAEG